

Nodyn Cyfarfod y Rhwydwaith Cyngkori Cenedlaethol yng Nghymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16^{eg} Hydref 2017 – swyddfa Cyngor ar Bopeth, 4ydd Llawr, Tŷ Trafalgar, 5 Fitzalan Place, Caerdydd CF24 0ED

Yn bresennol:

Bob Chapman, Cadeirydd y Rhwydwaith Cyngkori Cenedlaethol (BC)
Peter Wyman – CBE (Cadeirydd yr Adolygiad) (PW)
Lisa Hayward, CLILC (LH)
Dr Sumina Azan, Iechyd Cyhoeddus Cymru (SA)
Fran Targett, Cyngor ar Bopeth Cymru (FT)
Salli Edwards, Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint (SE)
JJ Costello, Shelter Cymru (JC)
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr (KP)
Lee Phillips, Y Gwasanaeth Cyngkori Ariannol (LP)
Andrew Jacobs, Yr Uned Cynhwysiant Digidol ac Ariannol, Llywodraeth Cymru (AJ)
Paul Neave, Pennaeth y Gwasanaethau Cyngkori, Llywodraeth Cymru (PN)
Stephanie Barry, Yr Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru (SB)

Eitem 1 – Croeso ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd BC bawb i unfed cyfarfod ar ddeg y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yng Nghymru. Cyflwynodd BC Peter Wyman, a ymunodd â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynghylch yr adolygiad annibynnol mae'n ei gynnal o ariannu Cyngor ar Ddyledion yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

1.2 Nodwyd ymddiheuriadau gan Lara Ramsay, y Loteri Fawr.

Eitem 2 – Adroddiad y Cadeirydd

2.1 Roedd BC wedi dosbarthu ei adroddiad diweddarar cyn y cyfarfod i dynnu sylw at ei waith diweddar.

2.2 Dywedodd PN fod cyflwyniad BC yng nghyfarfod Cydlynwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar 14^{eg} Medi yn gadarnhaol gan ei fod bellach wedi trefnu cyfarfod â Chydlynwyr unigol a mynd i gyfarfod rhanbarthol yng Ngogledd Cymru o ganlyniad.

2.3 Roedd cyfarfod BC gydag Alex Bevan, TUC Cymru, yn gadarnhaol iawn ac mae ganddo ddiddordeb mewn datblygu pecyn cymorth ar sut y gallant ddatblygu gwasanaethau cyngkori yn eu maes a llunio cysylltiadau rhyngddynt. Mae cyfarfod arall yn cael ei drefnu.

2.4 Mae'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion yn cael ei gohirio am flwyddyn arall ac mae BC yn bwriadu gofyn i'r Gweinidog Addysg sut mae hi'n bwriadu ymgorffori'r Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor yn y cwricwlwm newydd.

Eitem 3 – Adolygiad y DU o Ariannu Cyngor ar Ddyledion

3.1 Croesawodd y grŵp PW. Amlinellodd PW bwrpas ei adolygiad, sef cyflwyno argymhellion ynghylch datblygu fframwaith effeithiol, rhesymol a thryloyw ar gyfer ariannu cyngor ar ddyledion. Esboniodd fod Rosemary Radcliffe (ymgyngorydd economaidd) a'r London School of Economics yn ei gefnogi gyda'r gwaith, yn benodol er mwyn cynllunio ar gyfer lefel y ddyled mae'n debyg y bydd gennym ledled y DU yn y dyfodol a faint o'r ddyled hon sy'n debygol o achosi problemau – er mwyn rhoi syniad o'r ddarpariaeth cyngor ar ddyledion fydd ei hangen yn y dyfodol.

Mae cylch gorchwyl yr adolygiad yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

1. Faint o gyngor ar ddyledion sydd ei angen, a faint fydd hyn yn ei gostio?
2. Sut dylid ariannu'r cyngor ar ddyledion a phwy ddylai dalu amdano?
3. Beth yw manteision y ffordd bresennol y caiff cyllid cyngor ar ddyledion ei gasglu a'i ddosbarthu ac a fyddai'r rheini sy'n cael cyngor yn cael budd o drefniadau gwahanol?

3.2 Esboniodd PW mai nod y cais am dystiolaeth, y mae wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar, yw meithrin dealltwriaeth gan y sefydliadau sy'n ymwneud â darparu, ariannu, neu gomisiynu gwasanaethau cyngor ar ddyledion a rhannu eu data er mwyn llunio'r darlun mwyaf cynhwysfawr posibl o'r sefyllfa ar hyn o bryd yn y sector cyngor ar ddyledion; sut y gallai hyn newid dros y blynyddoedd nesaf; a rhannu safbwyntiau am beth ddylid ei wneud i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol.

3.3 Cynhaliwyd trafodaeth grŵp ar ôl hyn lle cytunwyd ei bod yn hanfodol bod ansawdd y cyngor yn bwysicach na faint ohono sydd ar gael. Teimlwyd bod anghysondebau o ran y diffiniadau o beth a olygir gan 'gyngor' a bod anghysondebau hefyd o fewn sefydliadau, er enghraifft, y gwaith o hyfforddi cynghorwyr. Dyma lle mae Fframwaith Ansawdd Llywodraeth Cymru yn hollbwysig, yn enwedig wrth i'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol greu rhagor o alw am wasanaethau cynghori.

3.3 Holodd PW am wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chanlyniadau cleientiaid a nododd AJ fod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu canlyniadau ar gyfer ariannu yn y dyfodol a pharhau i weithio'n agos gyda'r sector gwasanaethau cynghori er mwyn helpu i ddatblygu agwedd fwy integredig a chydweithredol ar ddarparu gwasanaeth cynghori, sy'n seiliedig ar 'angen' a bod dal canlyniadau go iawn cleientiaid yn parhau'n flaenoriaeth. Fodd bynnag, i wneud hyn mae'n rhaid i sefydliadau weithio'n agosach gyda'i gilydd i ddal ac adrodd am y canlyniadau gwell i'r cleient.

Awgrymwyd y dylai cyllid ar gyfer cyngor ar ddyledion gael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU a sefydliadau a allai gyfrannu at ddyledion cleientiaid, megis cwmnïau gwasanaethau ariannol a chwmnïau cyfleustodau.

3.4 Trodd y drafodaeth at sianeli cyngor a'r gwahanol sianeli sydd ar gael. Nodwyd ei bod yn bwysig darparu cyngor drwy amrywiaeth o sianeli gan nad yw rhai cleientiaid yn defnyddio sianeli penodol, megis y rhyngrwyd, tra mae eraill yn defnyddio sawl sianel. Os yw sianeli yn cael eu hariannu ar wahân efallai y bydd perygl na fydd pobl yn cael gwasanaeth cyfannol ac fe allant ymddieithrio. Cytunwyd bod materion ynghylch cyflenwad a chostau o ran sianeli a bod angen adnodd ar waith i ddelio â hyn.

3.5 Diolchodd PW i'r grŵp am y drafodaeth. Amlinellodd yr amserlen a gofynnodd i bawb ymateb i'r cais am dystiolaeth sy'n cau ar 8^{fed} Rhagfyr 2017. Bwriad PW yw dod i gasgliadau cynnar yn chwarter cyntaf 2018 a chyhoeddi ei adroddiad terfynol yn nhymor y gwanwyn 2018.

Eitem 4 – Cais am Dystiolaeth – Ariannu Cyngor ar Ddyledion – Cynllunio ymateb NAN

4.1 Yn dilyn y diweddariad a'r drafodaeth yn eitem 3, cytunodd y grŵp y bydd sefydliadau'n ymateb ar wahân. Fodd bynnag, bydd angen ymateb ar y cyd gan NAN hefyd.

4.2 **Cam Gweithredu** – BC a PN i drafod yr ymateb drafft gan NAN

Eitem 5 – Nodiadau'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31^{ain} Gorffennaf 2017

5.1 Cytunodd y grŵp bod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 31^{ain} Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir. Roedd un cam gweithredu eto i'w roi ar waith ynghylch canfod cynrychiolwyr posibl i ymuno â'r grŵp craidd. Mae'r trafodaethau'n parhau.

5.2 **Cam Gweithredu** – BC a PN i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y datblygiadau ynghylch cael aelodau newydd i ymuno â NAN yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 6 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

6.1 – Cyllid ar gyfer Gwasanaethau Cynghori - dywedodd PN wrth yr aelodau y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn ystyried cyllid ar gyfer gwybodaeth am lesiant cymdeithasol a'r gwasanaethau cynghori yn y dyfodol ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno'n ffurfiol ar y Gyllideb ddrafft ar gyfer Cymru yn 2018 – 19 ar 24^{ain} Hydref. Sicrhodd PN y grŵp fod Ysgrifennydd y Cabinet yn parhau'n gadarnhaol am waith y gwasanaethau cynghori yng Nghymru. Dywedodd PN y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r sector gwasanaethau cynghori gan ddechrau gyda'r rheini sydd eisoes yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu dull mwy integredig at ddarparu gwasanaethau cynghori o fis Ebrill 2018 ymlaen – fel y trafodwyd ac y cytunwyd gyda'r NAN o'r blaen. Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

6.2 – Y Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau - nododd AJ fod y Bil yn parhau i wneud cynnydd cyson drwy'r amrywiol gamau yn Nhŷ'r Arglwyddi ac anogodd PN yr aelodau i glicio'r ddolen ganlynol

<https://services.parliament.uk/bills/2017-19/financialguidanceandclaims/documents.html> i ddilyn ei hynt.

Dywedodd AJ wrth y grŵp fod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau parhaus â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Thrysorlys ei Mawrhydi, ynghyd â swyddogion o'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, i gytuno ar fformiwla ariannu deg a fydd yn helpu i ddatblygu model ariannu dyledion sy'n diwallu anghenion Cymru yn well. Fodd bynnag, gan na chytunwyd ar gytundeb ffurfiol eto, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant wedi cytuno i ohirio'r ddadl yng Nghynulliad Cymru ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a drefnwyd ar gyfer 10 Hydref 2017, er mwyn caniatáu mwy o amser i drafod agweddau ar y fformiwla ariannu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Thrysorlys Ei Mawrhydi. Mae cyfarfod wedi'i drefnu yn Llundain gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau/Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r gweinyddiaethau datganoledig ar y 1^{af} Tachwedd 2017.

Ychwanegodd LP fod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 8^{fed} Tachwedd gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau i drafod y Bil a chafodd holl aelodau craidd NAN eu gwahodd a'u hannog i fod yn bresennol.

6.3 – Y Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor (IAQF) – Tendr – dywedodd PN wrth y grŵp fod ymarfer tendro cystadleuol yn cael ei gynnal er mwyn i Lywodraeth Cymru benodi contractwr, gyda gwybodaeth briodol am yr IAQF ac am y safonau ansawdd ategol sydd ar waith yn y sector cyngor a gwybodaeth, er mwyn sefydlu gwasanaeth asesu annibynnol yr IAQF a dechrau'r gwaith o achredu Gwybodaeth Llesiant Cymdeithasol/Perchnogion Safonau Ansawdd Cyngori sy'n bodoli ar hyn o bryd i'r IAQF.

Bydd y cyfnod tendro yn agor yr wythnos nesaf ac yn cau tua diwedd mis Tachwedd gyda'r contractwr yn dechrau ei waith yn gynnar ym mis Ionawr 2018, am gyfnod o 12 mis i ddechrau. Bydd manyleb y tendr ar gael ar wefan GwerthwchiGymru.

BC yw'r asesydd annibynnol ar y panel asesu ac awgrymwyd bod y contractwr llwyddiannus yn cael gwahoddiad i gyfarfod craidd nesaf NAN.

Cam Gweithredu – SB i wahodd y contractwr i'r cyfarfod nesaf ar ôl iddo gael ei benodi.

6.4 – Mapio darparwyr – Mae'r wybodaeth mapio bellach yn fyw ar wefan DEWIS Cymru ac mae gan PN 'statws golygydd' sy'n ei alluogi i wirio cofnodion cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Mae ymarfer wedi'i gynnal i annog sefydliadau i gofrestru a dywedodd PN y bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r holl aelodau barhau i annog sefydliadau pan fyddant mewn cyfarfodydd ac ati.

Cam Gweithredu – SB i anfon rhestr o sefydliadau sydd eisoes wedi cofrestru eu manylion ar wefan DEWIS at y grŵp.

6.5 – Ymchwil Dewis Sianel – Mae Sian Williams, Ymchwilydd mewnol yn Llywodraeth Cymru, yn arwain y broses o chwilio am lenyddiaeth sy'n cael ei chyflawni ar hyn o bryd i ganfod a chasglu'r ymchwil sydd eisoes ar gael yn y maes hwn.

Cam Gweithredu – SB i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol o'r ymchwil dewis sianel â'r grŵp pan fydd ar gael.

Eitem 7 – Gweithgorau

7.1 Yn dilyn y cytundeb yng nghyfarfod diwethaf NAN a gynhaliwyd ar 31^{ain} Gorffennaf i sefydlu gweithgor *Integreiddio Datrys ac Atal Argyfwng*, cyfarfu'r grŵp ar 9^{fed} Hydref ac roedd yn cynnwys BC, PN, LP ac SB. Yn anffodus, fe wnaeth 2 aelod estynedig o NAN oedd i fod yn bresennol fethu dod ar y diwrnod. Pwysleisiodd BC pa mor bwysig yw cyfraniad aelodau mewn gweithgorau ac anogodd bawb i gymryd rhan.

Cam Gweithredu – SB i anfon papur drafft at yr aelodau craidd a'r aelodau estynedig a threfnu'r gweithgor nesaf ar gyfer mis Tachwedd. *Cwblhawyd – mae'r gweithgor nesaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener 24^{ain} Tachwedd.*

7.2 – Cytunwyd bod angen gweithgor 'dadansoddi anghenion' i ystyried sut gall canfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen am gyngor ar lesiant cymdeithasol helpu i ddiffinio manylebau ariannu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau cynghori ledled y wlad. Cytunwyd y bydd gwrthdaro buddiannau i ddarparwyr ymwneud â'r grŵp hwn ac mai dim ond cyllidwyr gwasanaethau cynghori fydd yn mynychu.

Cam Gweithredu – SB i sefydlu gweithgor 'dadansoddi anghenion' ar gyfer cyllidwyr ym mis Rhagfyr. *Cwblhawyd – Mae'r gweithgor nesaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 11^{eg} Rhagfyr.*

Cam Gweithredu – BC / PN i adrodd yn ôl i'r grŵp am gynnydd y gweithgorau yng nghyfarfod nesaf NAN ym mis Ionawr.

Eitem 8 – Cloi'r cyfarfod a dyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol

8.1 Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y grŵp craidd yn cael ei gynnal ar 15 Ionawr 2018 yng Nghaerdydd (lleoliad i'w gadarnhau) ac y bydd cyfarfod nesaf y grŵp craidd a'r grŵp estynedig yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2018.

Cam Gweithredu – SB i greu pleidlais doodle ar gyfer cyfarfod mis Ebrill i gytuno ar ddyddiad addas. – *cwblhawyd – Dydd Iau 26^{ain} Ebrill 2018*